

Cynnig i gofrestru gweithwyr ieuenctid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

Ffurflen ymateb

i'r

ymgyngoriad

Eich enw: **Rebecca Williams**

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

e-bost/rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **31 Mawrth 2016** at:

Nathan Huish

Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygu Proffesiynol

Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y byddai ymestyn cofrestru gweithwyr proffesiynol i gynnwys y sector Gweithwyr Ieuenctid yn helpu i wella ansawdd y gwasanaeth a roddir i bobl ifanc yng Nghymru?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Nid yw UCAC yn cytuno â'r cynnig i gofrestru gweithwyr ieuenctid gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Nid yw gweithwyr ieuenctid yn rhan o'r gweithlu addysg fel y'i deallir yn gyffredinol. Hynny yw, nid ydynt fel arfer yn gweithio mewn lleoliad/sefydliad addysg, nac yn cael eu cyflogi gan leoliad/sefydliad o'r fath, ac nid addysgu ffurfiol yw eu prif swyddogaeth.

Er bod gorgyffwrdd mewn mannau, mae gwahaniaethau sylfaenol a phwysig yn bodoli. Ac mae gorgyffwrdd rhwng y gweithlu addysg a phroffesiynau eraill yn ogystal e.e. gofalywyr plant, ond nid yw'n fwriad – ac ni fyddai UCAC yn argymhell – eu cofrestru nhw.

Teimla UCAC y byddai cynnwys y grŵp hwn o weithwyr fel aelodau o Gyngor y Gweithlu Addysg yn ehangu aelodaeth y corff gam yn rhy bell, ac yn ei gwneud hi'n anoddach i gadw ffocws priodol ar flaenoriaethau'r gweithlu addysg.

Mi allai, felly, fod yn niweidiol i'r Cyngor ei hun, ei hygredded ac 'integriti' ei weledigaeth.

Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno y bydd cofrestru'r ddwy swydd (fel y nodir ym mharagraff 6.2), yn y lle cyntaf, yn sicrhau ansawdd a phroffesiynoldeb unigolion sy'n cael eu cyflogi fel gweithwyr ieuencid ac yn diogelu eu teitl a'u statws?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Fel uchod.

Cwestiwn 3 – Rydym wedi gofyn cwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: